**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**
—
**Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddHinsawdd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddClimate@senedd.wales
senedd.wales/SeneddClimate
0300 200 6565

Huw Irranca-Davies AS
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros
Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

2 Mawrth 2026

Annwyl Huw,

**Rheoliadau Cynllun Ernes ar gyfer Cynwysyddion Diodydd (Cymru) 2026**

Yn ystod cyfarfod y Pwyllgor ar 25 Chwefror, gwnaethom drafod gohebiaeth gan y Gymdeithas Fasnach Gwin a Gwirodydd (WSTA) a British Glass ynghylch y Rheoliadau Cynllun Ernes ar gyfer Cynwysyddion Diodydd (Cymru) 2026 (y Rheoliadau drafft).

O ran y trefniadau amserlennu, rydym ar ddeall y bydd y Rheoliadau drafft yn cael eu trafod ddiwedd mis Mawrth. O ystyried ymrwymiadau gwaith y Pwyllgor ar hyn o bryd, nid ydym mewn sefyllfa i drafod y Rheoliadau drafft mewn unrhyw ffordd ystyrlon er mwyn gallu cyflwyno adroddiad arnynt cyn y ddadl. Fodd bynnag, cytunodd y Pwyllgor y dylwn ysgrifennu atoch er mwyn nodi ein safbwynt lefel uchel ar y Rheoliadau drafft, ac er mwyn gofyn am ymateb ar faterion a godwyd mewn gohebiaeth sy'n berthnasol i'n cylch gwaith. Mae rhestr o gwestiynau wedi'i chynnwys mewn Atodiad.

Mae'r Pwyllgor wedi bod yn eiriolwr cryf dros gyflwyno cynllun dychwelyd ernes (DRS) yng Nghymru. Rydym wedi mynegi rhwystredigaeth ynghylch yr oedi parhaus o ran cyflwyno cynllun o’r fath, gan bwysleisio'r angen i Lywodraeth Cymru wneud hynny gynted â phosibl. Felly, mae'r Rheoliadau drafft yn gam ymlaen yr ydym yn ei groesawu.

Rydym yn falch bod y Rheoliadau drafft yn darparu ar gyfer dechrau’r cynllun ar 1 Hydref 2027, gan sicrhau cydymffurfiaeth â gweddill y DU, a chan gyflawni ymrwymiad hirdymor Llywodraeth Cymru i gynnwys cynwysyddion diodydd gwydr.

Nodwn mai diben y cyfnod pontio ar gyfer cynwysyddion diodydd gwydr, a fydd yn para am bedair blynedd, yw caniatáu digon o amser i'r diwydiant addasu i ofynion y cynllun. Rydym yn ystyried bod hwn yn ddull pragmatig o osgoi oedi pellach o ran cyflwyno'r cynllun. Serch hynny, rydym yn cydnabod bod rhai yn y diwydiant yn parhau i bryderu am gwmpas y cynllun. Rydym yn pwysleisio

pwysigrwydd ymgysylltu'n barhaus â'r diwydiant a phartneriaid cyflawni eraill er mwyn sicrhau cyfnod pontio llyfn ac effeithiol.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Mike Hedges AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Byddwn yn ddiolchgar pe byddech yn darparu ymateb cyn gynted â phosibl, ac yn ddelfrydol erbyn 16 Mawrth 2026.

Yn gywir,

Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg/We welcome correspondence in Welsh or English.

**Atodiad: Cwestiynau ynghylch effaith cynnwys cynwysyddion diodydd gwydr**

1. Sut ydych chi'n ymateb i honiad y Gymdeithas Fasnach Gwin a Gwirodydd y gallai'r penderfyniad i gyflwyno cynllun dychwelyd ernes sy'n cynnwys gwydr danseilio amcanion amgylcheddol drwy gynyddu allyriadau sy'n deillio o gerbydau, a thrwy roi cymhelliant i bobl ddefnyddio mathau llai ailgylchadwy o becynnu yn hytrach na gwydr cynaliadwy?

2. Sut ydych chi'n ymateb i honiad British Glass y gallai cynnwys cynwysyddion diodydd gwydr arwain at y canlynol:

i. Mewnforio cynwysyddion diodydd gwydr rhatach sy'n gallu amsugno costau polisi, gan leihau cynnwys ailgylchadwy y cynhyrchion, cynyddu eu hôl-troed carbon, a disodli cadwyni cyflenwi'r DU.

ii. Newid deunydd cynhyrchion i blastig neu ddeunyddiau eraill sy'n gallu cael effaith negyddol ar iechyd pobl a'r amgylchedd mewn llawer o achosion, ac sy'n llai ailgylchadwy na gwydr.

3. Yn ôl British Glass, mae nifer o gwestiynau hollbwysig heb eu hateb (wedi'u nodi isod) yn codi yn sgil y Rheoliadau. Byddai'n ddefnyddiol pe gallech ymateb i bob un yn ei dro.

iii. A fydd cynhyrchwyr yn wynebu costau am gasglu gwydr DRS yn ystod y cyfnod pan fydd yr ernes yn 0c?

iv. Os bydd gwydr yn cael ei eithrio o'r drefn Cyfrifoldeb Cynhyrchydd Estynedig ar gyfer pecynnu (pEPR) o dan y system DRS o fis Hydref 2027 ymlaen, pam fod cynhyrchwyr yn parhau i dalu ffioedd pEPR yn awr, yn wahanol i'r drefn ar gyfer mathau eraill o ddeunydd pecynnu metel a phlastig ym mhob gwlad yn y DU sydd wedi'u heithrio o'r ffioedd pEPR?

v. Sut fydd y system hon yn rhyngweithio â'r system sy'n bodoli eisoes ar gyfer casglu eitemau wrth ymyl y ffordd? A fydd gofyn i'r Sefydliad Rheoli Ernes (DMO) ad-dalu awdurdodau lleol am y gost o gasglu cynwysyddion diodydd gwydr o ochr y ffordd, ac os felly, sut y bydd y gost hon yn cael ei chyfrifo er mwyn sicrhau nad yw cynhyrchwyr gwydr yn parhau i dalu am y ddwy system gasglu?

vi. O ystyried yr ernes o 0c, mae targed dychwelyd o 80 y cant ar gyfer cynwysyddion diodydd gwydr erbyn 2030 yn uchel iawn. A fydd cynhyrchwyr yn wynebu dirwy os nad yw'r targed hwn yn cael ei gyflawni?